OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 39 (Cy. 14)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Ffynnon Taf i Nantgarw, Rhondda Cynon Taf) (Terfyn Cyflymder 50 MYA Dros Dro) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *12 Ionawr 2011* |
| *Yn dod i rym* | *25 Ionawr 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Caerdydd i Langurig (yr A470) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 25 Ionawr 2011. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Ffynnon Taf i Nantgarw, Rhondda Cynon Taf) (Terfyn Cyflymder 50 MYA dros dro) 2011.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n cychwyn am 00:01 o'r gloch ar 25 Ionawr 2011 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *("the lengths of the trunk road")* yw'r darnau o gefnffordd yr A470 o Ffynnon Taf i Nantgarw ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd.

**4.** Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn parhau am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 12 Ionawr 2011

***J COLLINS***
Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyflenwi Seilwaith
Llywodraeth Cynulliad Cymru

**(1)** 1984 p27; Amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi.

**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## YR ATODLENNI

**Darnau o Gefnffordd yr A470, Cefnffordd Caerdydd i Langurig, o Gyfnewidfa Ffynnon Taf i Gyfnewidfa Nantgarw ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.**

i) Y darn hwnnw o brif gerbytffordd tua'r gogledd y gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt Cyfnewidfa Ffynnon Taf hyd at ganolbwynt Cyfnewidfa Nantgarw.

ii) Y darn cyfan o ffordd ymuno tua'r gogledd y gefnffordd wrth Gyfnewidfa Ffynnon Taf.

iii) Y darn hwnnw o brif gerbytffordd tua'r de y gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt Cyfnewidfa Nantgarw hyd at bwynt 1850 o fetrau i'r de o ganolbwynt Cyfnewidfa Nantgarw.

iv) Y darn cyfan o ffordd ymuno tua'r de'r gefnffordd wrth Gyfnewidfa Nantgarw.

v) Y darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r gogledd wrth Gyfnewidfa Nantgarw.